



Chartered
Institute of
Housing
Cymru

Cefnogi tai 2021

Maniffesto dros Gartrefi

Rhagair

Wrth i ni ddod yn nes at etholiadau Senedd Cymru yn 2021 nid yw gwaith gweithwyr tai proffesiynol ar draws Cymru erioed wedi bod mor hanfodol. Yn ddiweddar mae'r sector wedi camu i'r adwy i ymdrin ag effaith llawer o deuluoedd sy'n ei chael hi'n anodd fforddio bwyd yn ystod y cyfnod clo a gwyliau'r ysgol, y difrod a achoswyd gan lifogydd lluosog ac wrth gwrs, effaith anferth y pandemig Covid-19. A hynny oll wrth barhau â'r heriau parhaus o gyflwyno tai cymdeithasol a fforddiadwy, gwasanaethau gofal a chefnogaeth o safon a gweithgareddau i adfywio cymunedau lleol.

Mae llawer o'r gwaith hwn yn cefnogi cydweithwyr mewn meysydd hanfodol eraill, megis iechyd a gofal cymdeithasol lle, yn ystod y pandemig, mae gwaith gweithwyr tai proffesiynol wedi helpu wrth greu sylfaen i alluedd cynyddol o fewn y gwasanaeth iechyd i drin y rhai sydd mewn angen mwyaf.

Mae'r heriau deddfwriaethol a datblygiadau polisi dros flynyddoedd diweddar wedi dod â llu o welliannau i'r sector - cynnydd ar ddigartrefedd, gwelliannau i rentu'n breifat ac adeiladu mwy o gartrefi cynaliadwy. Gydag adolygiad annibynnol o'r cyflenwad tai fforddiadwy yng Nghymru'n ddiweddar yn ychwanegol at hynny oll, mae gennym sylfaen go iawn ar gyfer cyflwyno newidiadau radicalaidd i rai o'n heriau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

Ni allwn fforddio gadael i'r momentwm hwn gilio. O dan y cysgod trwm sydd wedi'i fwrw gan Covid-19, mae llawer iawn i fod yn obeithiol amdano o hyd. Rydym wedi bod yn siarad â rhai o'n haelodau ers cryn amser ac rwy'n falch y gallwn amlinellu rhai o'r syniadau ymarferol y credwn y gallent fod yn drawsnewidiol i'r sector ac i gymdeithas yn ehangach, os cânt eu mabwysiadu.

Ac nid oes ofn gennym nodi mai'r man cychwyn, o reidrwydd, yw rhoi'r cartref, y lle y mae ein llesiant meddyliol a chorfforol yn dechrau, yn bendant wrth wraidd cyflwyno polisi cyhoeddus yn ystod tymor nesaf Senedd Cymru. Mae'r cartref yr un mor ganolog ag iechyd, gofal cymdeithasol, addysg a datblygu economaidd wrth sicrhau bod gennym gymunedau iach, cynaliadwy, ffyniannus a hapus - ac rydym o'r gred bod yn rhaid i hynny ddechrau gyda Hawl i Gartref Digonol a bennir gan ddeddfwriaeth.

Matt Dicks,

Cyfarwyddwr Cenedlaethol CIH Cymru

Ymrwymo i ddarparu hawl i gartref digonol ar gyfer pawb yng Nghymru

Mae Cymru lle gall pawb gyrchu cartref diogel a fforddiadwy yn weledigaeth y gallwn i gyd ei chefnogi. Gyda'r fframwaith cyfreithiol iawn yn ei le, gallwn droi hynny'n realiti.

Rydym yn gofyn i bob plaid wleidyddol yng Nghymru:

- Ymrwymo i ddatblygu deddfwriaeth yn ystod tymor nesaf Senedd Cymru i gorffori'r Hawl i Gartref Digonol yn llawn yng nghyfraith Cymru
- Eirioli dros ymagwedd at gartrefi sy'n seiliedig ar hawliau o fewn eich plaid a'ch cymuned
- Datblygu strategaeth sydd â'r nod o ddarparu'r adnoddau y mae eu hangen ar awdurdodau lleol a'u partneriaid i wneud y dull hwn yn un dichonadwy.
- Ennyn diddordeb y cyhoedd ar sut y gall yr hawl hon gefnogi eu gallu i gyrchu cartrefi addas

Ble y mae'r effaith yn debygol o gael ei deimlo?

Camau i ddod â digartrefedd a chysgu allan i ben - Ar ben caled yr argyfwng tai, gallai hawl i gartref digonol ostwng a dileu pob ffurf ar ddigartrefedd yn arwyddocaol.

Cyflymu cyflwyno tai cymdeithasol - Mae adeiladu cartrefi cymdeithasol a fforddiadwy newydd yn rhan anochel o ddarparu hawl i gartref digonol i bobl.

Codi safonau - Mae dull sy'n seiliedig ar hawliau'n creu cysylltiad cadarn rhwng mynediad i gartref ag ansawdd cartrefi. Gallai hyn ddarparu ffocws i weld yr adnoddau, arbenigedd ac ysgogyddion polisi y mae eu hangen i sicrhau cynnydd cyson o ran ansawdd.

Cwrdd â disgwyliadau'r cyhoedd - Byddai darparu 'hawl' i bobl y gallant ddibynnu arni'n sicrhau ffocws ar yr adnoddau a ddarperir i gyrrff statudol i fodloni'r hawl honno yn ymarferol hefyd.

Paratoi'r proffesiwn tai at y dyfodol trwy greu strategaeth gweithlu

Yn unol â phroffesiynau eraill yr ystyrir eu bod yn rhan graidd o ddiwallu anghenion y cyhoedd yng Nghymru, rydym o'r gred mai nawr yw'r amser i greu strategaeth gweithlu mewn cydweithrediad â CIH Cymru a'n haelodau ar gyfer gweithwyr tai proffesiynol sy'n cyflwyno ac yn rheoli tai cymdeithasol a fforddiadwy yn ogystal â darparu gwasanaethau a anelir at ddiwallu amrywiaeth eang o anghenion mewn cymunedau, wedi'i hategu gan y canlynol:

- **Gwerthfawrogi amrywiaeth:** Sicrhau bod y gweithlu'n wir adlewyrchiad o gyfansoddiad amrywiol cymunedau Cymru
- **Tyfu llwybrau gyrfa:** Adnabod llwybrau i mewn i'r proffesiwn, gan greu camau gweithredu i gynnal a thyfu'r rhain ymhellach
- **Meithrin arbenigedd:** Sicrhau bod gwybodaeth yn adnodd a rennir ac edrych tua'r dyfodol at y sgiliau sydd eu hangen er mwyn i sector tai modern weithio'n effeithiol
- **Data cadarn:** Cywain data i ategu'r strategaeth ac adeiladu darlun cliriach o'r proffesiwn yng Nghymru
- **Hybu effaith:** Amlinellu'r effaith sydd gan weithwyr tai proffesiynol wrth gefnogi gwaith sectorau allweddol eraill a rhoi manylion y camau gweithredu i feithrin gweithgareddau ymhellach
- **Galluedd:** sicrhau bod gennym ddigon o alluedd a sgiliau i gyflwyno ein nod a rennir o gartref gwyrdd, cynaliadwy a fforddiadwy i bawb yng Nghymru



Sefydlu Partneriaeth Werdd

Mae ein haelodau eisoes ar flaen y gad wrth adeiladu rhai o'r cartrefi mwyaf cynaliadwy a charbon-niwtral yn y Deyrnas Unedig. I gyflymu cynnydd, rydym yn credu y dylai llywodraeth nesaf Senedd Cymru sefydlu 'Partneriaeth Werdd' gyda'r sector sy'n amlinellu:

- **Cyllid tymor hir:** Amcangyfrifir mai cost y gweithgareddau ôl-osod ar dai a chartrefi cymdeithasol sydd mewn tlodi tanwydd fydd £0.5bn - £1bn y flwyddyn dros y 10 mlynedd nesaf. Mae'n rhaid i sicrwydd cyllido tymor hir fod yn rhan o ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cymru
- **Arbenigedd technegol:** Mae'n rhaid cael cynllun clir i sicrhau y caiff yr arbenigedd angenrheidiol ar draws y gweithluoedd adeiladu a rheoli tai ei ymwreiddio'n gynnar
- **Cefnogaeth ar draws daliadaethau:** Ffocws ar gefnogi landlordiaid cymdeithasol a pherchnogion preswyl a fydd yn ei chael hi'n anodd gwella'u cartrefi heb fuddsoddiad sylweddol
- **Dulliau adeiladu cyfoes:** Dull unedig o dyfu'r diwydiant DAC yng Nghymru, gan gefnogi cyflenwyr i sefydlu eu hunain, cynyddu'r defnydd o gadwynau cyflenwi lleol, tyfu darvoudion maint a chanolbwyntio ar brosesu a thechnolegau a all gael eu hefelychu
- **Cymuned ddysgu:** Bydd dysgu ar y cyd rhwng sefydliadau ar draws yr holl rannau cyflwyno'n hanfodol i sicrhau y rhennir gwybodaeth yn sgil profi i yrru costau i lawr a darparu cysondeb mewn dulliau ac ymagweddau
- **Cyflogaeth a hyfforddiant:** Mae'r economi werdd yn cynnig cyfleoedd arwyddocaol i greu swyddi newydd, cynyddu maint y prentisiaethau, a chryfhau economi sylfaenol Cymru



Cefnogi gwelliannau mewn rhentu preifat ar gyfer landlordiaid a thenantiaid

Mae landlordiaid yn chwarae rôl hanfodol wrth ostwng digartrefedd a diwallu'r angen lleol am gartrefi. Rydym o'r gred bod yn rhaid i lywodraeth nesaf Senedd Cymru greu strategaeth tymor hir i gefnogi landlordiaid preifat fel nad yw cydraddoldebau rhwng pobl sy'n byw mewn daliadaethau gwahanol yn cynyddu. Dylai'r strategaeth hon:

- Sefydlu gweledigaeth glir ar gyfer y sector rhentu preifat sy'n ceisio meithrin a chryfhau'r berthynas rhwng tenantiaid a landlordiaid, gan arwain at ganfyddiad mwy cadarnhaol o'r sector
- Rhoi manylion y gefnogaeth tymor hir y mae ei hangen i helpu landlordiaid preifat i ffynnu yng Nghymru, ochr yn ochr â phecynnau cefnogaeth clir
- Amlinellu sut fydd cywain data'n cyfeirio gwelliannau mewn polisi ar draws amodau tai a rheoli tai
- Darparu mecanweithiau clir er mwyn i landlordiaid a thenantiaid ddefnyddio eu mewnwelediad, profiad ac arbenigedd eu hunain i wella polisi'n genedlaethol
- Adeiladu ar ymchwil 'Rhentu Preifat ac Iechyd Meddwl' Tyfu Tai Cymru i sicrhau bod landlordiaid a thenantiaid yn gwybod sut i gael mynediad i gefnogaeth amserol



Mynd i'r afael â stigma yn erbyn tai cymdeithasol a hybu effaith gadarnhaol cymunedau amrywiol.

Trwy ein hymchwil Tyfu Tai Cymru, sef arolwg o farn y cyhoedd yn 2018 a ganolbwyntiodd ar ganfyddiadau'r cyhoedd yng Nghymru o dai yng Nghymru, daethpwyd o hyd i'r wybodaeth a ganlyn:

- Mae'r cyfuniad o gartrefi a digartrefedd yn un o bum blaenoriaeth bennaf y cyhoedd
- Teimla tri o bob pump mai'r llywodraeth sy'n gyfrifol am ddarparu cartref da ar gyfer pob dinesydd
- Credodd ychydig dros hanner yr holl ymatebwyr y byddai tai cymdeithasol yn dioddef yn fwy o droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Roedd dau draean naill ai'n ansicr ynghylch adeiladu tai cymdeithasol yn agos iddynt neu yn erbyn hynny

Mae'n glir mai rhywbeth cadarnhaol yw'r teimlad cyffredinol bod cartrefi'n bwysig, ond mae hyn yn cyferbynnu'n arw ag agweddau at dai cymdeithasol. Rydym yn credu bod angen camau mwy cydlynol, gallai'r rhain gynnwys:

- Ymgyrchoedd a anelir at y cyhoedd sy'n amlygu'r gwerth ychwanegol y mae tai cymdeithasol yn ei ddarparu i gymdeithas yn ehangach
- Hybu Cymru'n gynyddol fel arweinydd uchelgeisiol sydd wedi ennill ei blwy wrth gyflwyno tai cymdeithasol, gan feithrin canfyddiadau domestig a byd-eang o'r sector.
- Adnoddau lleol a anelir at gefnogi grwpiau cymunedol ac unigolion i rannu a lledaenu'r neges yn lleol ynglŷn ag effaith tai cymdeithasol ac adleisio lleisiau eu cymuned eu hunain
- Gweladwyedd cynyddol tai cymdeithasol fel cydran allweddol adfywio ac ysgogi economaidd yng nghynlluniau Llywodraeth Cymru, nawr ac yn y dyfodol.